# LLOFFION LLANGYNFELYN

Rhifyn 4

Braslun o Hanes y Chwarter
HYDREF - RHAGFYR, 1956

ynghyd â
Lloffion Amrywiol

PRIS 6ch.

# LLOFFION LLANGYNFELYN

Rhifyn 4, Ionawr 1957

Bellach gyda'r pedwerydd rhifyn hwn o'r "Lloffion" fe roddwyd cipdrem ar hanes y plwyf am flwyddyn gron. Bu'n hyfrydwch croniclo 6 genedigaeth ac 8 priodas, ond â thristwch mawr y croniclwyd yr 11 marwolaeth.

Yn ystod 1956 fe welir mai o gwmpas y capeli y crynhowyd y rhan fwyaf o weithgarwch cymdeithasol y plwyf. Daliodd Sefydliad y Merched yn fywiog a llewyrchus gan roi cymorth ymarferol i bob achos da, a gweithredodd y Cyngor Plwyf yn gyson ac nid heb fesur o lwyddiant. Gwnaeth y Pwyllgor Gwelliannau Lleol ei ran, ond tawel fu'r Gymdeithas Arddio ar ôl llwyddiant y Sioe Flynyddol. Nid oes tim pêl-droed na Dosbarth Allanol y gaeaf hwn, a go brin yw aelodau'r Dosbarth Dysgu Cymraeg. Y flwyddyn hon eto dangosodd y plwyfolion eu haelioni arferol wrth gyfrannu at fwy nag un achos teilwng. Purion peth yw adolygu'r sefyllfa ar drothwy blwyddyn newydd.

Seiliwyd un ysgrif yn y rhifyn hwn ar ddyddiadur a welodd olau dydd trwy garedigrwydd Miss Lilian Edwards, Llyscynfelyn. Tybed a oes dyddiaduron eraill ar glawr yn rhywle? Mae'r nodiadau a godwyd o ddarlith gan y ddiweddar Mrs.Evan Thomas (Mary Elizabeth Pugh), Brynarian, yn esiampl deg o'r math o wybodaeth y dymunem ei gasglu i'r "Lloffion".

Diolch eto am gefnogaeth ysgrifenwyr a phrynwyr, a dymunwn Flwyddyn Newydd Ddedwydd Dda i'r plwyfolion i gyd - gartref ac ar grwydr.

Danfoner pob gohebiaeth i'r Golygydd, Tŷ'r Ysgol, Taliesin, Machynlleth.

---

## Braslun o Hanes y Chwarter: Hydref - Rhagfyr 1956

| | | |
|---|---|---|
| Priodasau: | Tachwedd 24. | MR.JOHN CHARLES TUCKER â MISS MARGARET RHIANNON JENKINS, Neuadd-yr-ynys, Taliesin, - yn Rehoboth, Taliesin. |
| | Rhagfyr 22. | MR.JOHN FRASER GODDARD â MISS GWLADYS MOIRA JONES, 5, North Road, Tre'rddôl, yn Soar, Tre'rddôl. |
| | Rhagfyr 22. | MR.IRWIN CLIFFORD ROBERTS, Glan-yr-afon, Maescletwr, â MISS MYRA JONES, yn Aberystwyth. |
| | Rhagfyr 26. | MR.WILLIAM CYRIL FERRIS â MISS MARY DAWN DAVIES, Temperance House, Taliesin, - yn Eglwys Llangynfelyn. |

Marwolaethau: Rhagfyr 4. Y Cyn-Sergt.Arthur Hughes Jones, M.M., Craig-y-don, Taliesin, yn 66 mlwydd oed.

Rhagfyr 22. Mrs.Annie Bond, 1, New Terrace, Taliesin, yn 76 mlwydd oed.

Ymadawiad Y Parchedig O.J.Roberts, Llysteg, Taliesin.

Ar ddiwrnod cyntaf y chwarter cafwyd gwybodaeth gan y Parch.O.J.Roberts, - gweinidog Eglwys Rehoboth, Taliesin, ynghyd â Nasareth, Tal-y-bont, a'r Graig, Eglwysfach, - ei fod wedi derbyn galwad i fugeilio tair eglwys yng nghylch Wrecsam, sef Cefn-y-bedd, y Cymau a'r Ffrith. Wedi rhoi ei "bregeth brawf" ym Mis Bach 1951, dechreuodd y Parch.O.J.Roberts yma fel bugail ym mis Gorffennaf. Hon oedd ei ofalaeth gyntaf. Symuda i'w gylch newydd ar ddechrau 1957, wedi bod yn weinidog yma am ryw bum mlynedd a hanner. Nos Fawrth, Rhagfyr 8, bu cyfarfod ymadawol yn Festri Rehoboth. Ar ran yr eglwys cyflwynwyd siec sylweddol i Mr.Roberts gan Mr.Lewis Lloyd, Bodhyfryd, yr ail-hynaf o aelodau'r capel. (Yr hynaf yw Mrs.Jane Ellen Dunster, Pencae.). Diolchodd i'r bugail am ei wasanaeth a dymuno'n dda iddo ef, Mrs.Roberts, Tegwen Eleri ac Elfed Wyn. Siaradwyd gan y Parchn. J.E.Thomas, Brynderw; T.Trefor Parry, Tre'rddôl; Victor Thomas, y Borth; a Basil E.Jones, Taliesin, a chan y blaenoriaid a rhai aelodau. Tystiai pawb i addfwynder Mr.Roberts ac i'w barodrwydd bob amser i wneud cymwynas. Wrth ddiolch dywedodd Mr.a Mrs.Roberts iddynt fwynhau'n fawr eu harhosiad yn y cylch. Yn ystod y cyfarfod cafwyd 'paned o de. Llywyddwyd yn ddeheuig gan Mr.Evan Thomas, Brynarian.

Pwyllgor Dewis Bugail: Un deyrnged i wasanaeth Mr.Roberts oedd i'r tair eglwys yn yr ofalaeth benderfynu mynd ati'n ddi-oed i gael gweinidog newydd. Nos Sul, Tachwedd 3, penodwyd trwy bleidlais y 4 canlynol i wasanaethu gyda'r blaenoriaid ar y Pwyllgor Dewis Bugail: Miss Ruth Jones, Y Berth; Y Parch.Basil E.Jones, B.A., B.D., Oak Villa; Mr.D.R.Lloyd, Bodhyfryd; a Mr.John White, Y Bwthyn. Bellach y mae'r Pwyllgor hwn, yn cynnwys cynrychiolaeth o'r tair eglwys, yn prysur chwilio am olynydd, gyda Mr.Lewis Lloyd, Bodhyfryd, yn llywydd a Mr.Caledfryn Evans, Y.H., Tal-y-bont, yn ysgrifennydd.

Cyfarfodydd Diolchgarwch y Cynhaeaf:

Hydref 5. Yn Eglwys Llangynfelyn: Cymun Bendigaid yn y bore (Dwy oedfa - Cymraeg a Saesneg); Pregeth Saesneg y prynhawn a Chymraeg yr hwyr. Y pregethwr oedd y Parch.W.D.Davies, Ficer Llanddewi Brefi.

Hydref 16. Yn y "Llan Fach". Pregeth a Gosber gan y Parch.Dewi Thomas, Ficer Llanfihangel Genau'r Glyn. Gwasanaethwyd yn y cyfarfodydd i gyd gan y Ficer, Y Parch.Gwilym Parry, D.G.

Hydref 18. Cyfarfodydd unedig y capeli. Bore a phrynhawn, cyfarfodydd gweddi yn Soar a Rehoboth. Hwyr, pregeth yn Soar gan y Parch. T.Trefor Parry.

Hydref 23. Cyfarfod Diolchgarwch y Plant yn Rehoboth. Plant y capel yn adrodd, canu a darllen darnau addas ac yn dwyn rhoddion a werthwyd at yr achos. Rhoddwyd anerchiad campus i'r plant gan y Parch.J.E.Thomas, Brynderw. Trefnwyd y cyfarfod gan Mrs.Basil E.Jones, Oak Villa.

Gŵyl Bregethu Flynyddol Cymdeithas Bobl Ifainc Rehoboth: Hydref 9 a 10.

Pregethwyd gan y Parch.John E.Davies, Gopa, a'r Parch.Robin Williams, Dinmael. Diddorol cofnodi mai ychydig dros gant oedd yn bresennol y noson olaf ar waethaf gwrthatyniad y ddrama "Maesymeillion" yn Nhal-y-bont. Da oedd gweld cynifer, ac fel y dywedodd rhywun "Da fod yr awydd am droi i mewn yn parhau".

Hydref 17. Dechrau'r Dosbarth Dysgu Cymraeg dan ofal y Parch.T.Trefor Parry, Tre'rddôl. Dyma'r drydedd flwyddyn i'r dosbarth yma gael ei gynnal yn yr ysgol.

Hydref 19. Ocsiwn yng Ngwarcwm-bach. Dyma'r hysbysiad yn y papur lleol: "Clear-out Sale of the Whole of the Live and Dead Stock and Part of the Household Furniture. 25 Head fully attested cattle; 539 Welsh Mountain Sheep, Poultry, Dogs, Crops, Implements, Household Furniture and Effects. Sale to commence at 12.30. Lloyd, Herbert and Jones."

Beth tybed fydd hanes Gwarcwm-bach yn awr? Fe gofir mai yma y ganed Humphrey Jones y Diwygiwr yn 1832. Ymhen tua dwy flynedd byddwn yn sicr yn dathlu canmlwyddiant Diwygiad 1859.

Gwella'r Ffordd. Tua diwedd mis Hydref dechreuodd gweithwyr y Cyngor Sir ar y gwaith o roi wyneb newydd i'r ffordd o Ben-cae i lawr hyd Siop y Temperance, wyneb newydd i'r palmant rhwng Man-teg a Manchester House a gwneud gwelliannau mawr ar y ffordd o dan yr Ysgol a'r Llan Fach. Cafodd y Cyngor Plwyf addewid dro'n ôl y rhoddid sylw i'r materion hyn, a diolchir i'r Cyngor Sir, y swyddogion a'r gweithwyr am waith da.

Tachwedd 1. Ffilm-Ddarlith yn Festri Rehoboth ar "Blant Barnardo Gartref" gan Y Parch.J.O.James, Ysgrifennydd Teithiol yr Eglwysi Rhyddion yng Nghymru, ar ran y mudiad. Cafwyd casgliad sylweddol iawn, a gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer casgliadau pellach.

Maescletwr. Ar ddechrau Tachwedd dechreuodd tenantiaid newydd Maescletwr symud i mewn. Dyma restr o'r tenantiaid cyntaf. Diddorol yw'r enwau Cymraeg a roddwyd ganddynt ar eu tai.

| | |
|---|---|
| (1) Mrs.Cassie Davies, Ger-y-nant. | Gynt o Stryd y Felin, Tre'rddôl. |
| (2) Mrs.Jean Jones, Gwelfryn. | " " " " " " |
| (3) Mr.W.T.Roberts, Glan-yr-afon. | " " Brodawel, Taliesin. |
| (4) Mrs.Annie Rees, Hafan. | " " Hafan, Taliesin. |
| (5) Mr.W.T.Jones, Dyfnant. | " " Tŷ Mawr Llan, Llangynfelyn. |
| (6) Mrs.Mary Jane Evans, Blaen-wern. | " " Tŷ'n-y-wern. |
| (7) Mr.David Nelson, Hyfrydle. | " " Stryd y Felin, Tre'rddôl. |
| (8) Mr.John Thomas, Maesnant. | " " " " " " |
| (9) Mr.O. G. Jones, Tryfan. | " " Frongoch Villa, Tre'rddôl. |
| (10) Mrs.S.Jones, Y Faner. | " " Tŷ Canol, Ynyslas. |

Rhagfyr 20. Gyrfa Chwist yn yr Ysgol wedi ei threfnu gan y Pwyllgor Gwelliannau Lleol. Daeth nifer dda ynghyd a chafwyd yr elw sylweddol o dros £20. Yr oedd y bwyd yng ngofal Sefydliad y Merched. Diolchir yn fawr i'r caredigion a roddodd wobrwyon.

Cymdeithas Ddiwylliadol Rehoboth.

Tachwedd 13. Cyfarfod Amrywiol a The yng ngofal Mrs.O.J.Roberts, Llysteg.
Tachwedd 20. Darlith ar "Y Dyn a'r Gaib", gan Mr.T.E.Nicholas, Aberystwyth.
Rhagfyr 11. Noson o "Godi Cwestiwn". Holwr: Y Parch.O.J.Roberts; Panel Athrawon yn ateb: Miss Lilian M.Edwards, Llyscynfelyn, Miss Ruth Jones, Y Berth, a Mr.Hugh J.Evans, B.A., Tŷ'r Ysgol.

Trysorydd y Gymdeithas eleni yw Mr.Robert Williams, Pen-y-wern, a'r Ysgrifennydd yw Mr.John Hefin Evans, Tŷ'r Ysgol.

Soar, Tre'rddôl.

(a) Y Gymdeithas Ddiwylliadol. Cafwyd darlith gan y Parch.T.Trefor Parry ar "Y Greddfau a Chrefydd"; Seiat Holi a'r panel yn cynnwys y Gweinidog, Mr.R.J.Thomas, M.A., Brynderw, a Mr.Elwyn Edwards, Coedmor; darlith ar "Arddio" gan Mr.Alex.Jones, Ael-y-bryn, a Sosial a Chyfarfod Gwylnos ar noson ola'r flwyddyn.

Y Trysorydd eleni yw Mrs.Benbow, Suncot, a'r Ysgrifenyddion yw Mr.David Edwards, Glasfryn, Miss Mai Evans, Bronallt a Miss Eiriona Davies, The Hall.

(b) Gild y Chwiorydd. Agorwyd y Gild gyda The a Ffilmiau, ac yna cafwyd cyfres ddiddorol o anerchiadau:- Miss Jennie Pugh, Llythyrdy, (Dorcas); Miss Jane Beechey, Llanerch Dyfi, (Ffurfio Cymeriad Da); Mrs.David Jones, Arosfa, (Yr Apocryffa); Mrs.M.A.Edwards, Clet wr Terrace, Tre'rddôl, (Y Beibl) a Mrs.Evelyn Edwards, Glasfryn, (Y Nadolig).

(c) Y Gobeithlu. Gofelir am blant y Gobeithlu gan y Gweinidog a Mr.David Jones, Arosfa. Ychydig cyn y Nadolig trefnwyd parti i'r plant a rhoi anrheg i bob un ohonynt.

Pytiau.

(a) Teledu: Y mae 2 set deledu yn y plwyf ers rhai blynyddoedd ond yn ystod y chwarter hwn gwelwyd 3 set arall yn Nolennydd, Tan-y-bryn, a Phenpompren, ill tri ar fin y ffordd yn arwain i Ynys-las ac ar y gwastad. Deallwn eu bod yn cael derbyniad reit dda.

(b) Aeron Celyn: Bu cnwd anghyffredin o aeron (berries) ar y coed celyn eleni. A oes arwyddocâd i hyn? Cawn weld.

(c) Hen Gerrig Beddau: Pan fu Mr.Z.M.Sambrook yn codi un o'r lloriau cerrig yn Rock House, Goitre, darganfu fod yno nifer o gerrig beddau wedi eu troi wyneb i waered. Y mae rhai ag arysgrifen Gymraeg arnynt, ac y mae un yn Saesneg. Dechreuir un arysgrif "Y Garreg Hon sydd Goffadwriaeth", etc. Ceir y dyddiadau 1825 ac 1836 ar ddwy o'r cerrig.

Y Nadolig. Cafwyd Nadolig gwyn eleni am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer. Diwrnod gwyntog, ysgaprwth. Go denau oedd y cynulleidfaoedd yn y gwasanaethau a gynhaliwyd yn Eglwys Cynfelyn Sant ac yn Rehoboth yn y bore. Cafwyd Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Llangynfelyn y Sul olaf o'r flwyddyn. Canwyd nifer o garolau gan Martyn J.Parry, dwy ohonynt ar y "recorder".

Syfydliad y Merched. Yng nghyfarfod mis Hydref rhoddwyd sgwrs gan Mr.Lawson Hopley, Aberystwyth ar "Fwydydd y Cyfandir" (Continental Dishes). Rhoddodd Miss Dorothy Owen, Epworth Villa adroddiad ar ei hymweliad â'r Cyfarfod Grŵp yn Rhydypennau. Yn Nhachwedd cafwyd arddangosiad o goginio gan Miss Richards, cynrychiolydd M.A.N.W.E.B., ac yn Rhagfyr cafwyd Parti Nadolig. Rhoddodd Mrs.Bailey, Sea-View Terrace adroddiad ar ei hymweliad â Chyfarfod Blynyddol Cyngor y W.I.

Yn ystod y chwarter gwerthwyd seliau er budd y "Spastics" a chardiau Nadolig er budd U.N.I.E.F. (Cronfa Plant y Cenhedloedd Unedig.). Casglwyd £20 at Gronfa'r Ffoaduriaid (Refugees). Y casglyddion oedd Mrs.T.S.Jones, Pen-cae; Mrs.Evelyn Edwards, Glasfryn; Miss Ruth Jones, Y Berth; a Mrs.Jones, Glanystwyth.

Sedydliad y Merched a fu'n gyfrifol am y bwyd yn yr Yrfa Chwist yn Rhagfyr.

Collwyd dau aelod yn ystod y tymor sef Mrs.John Morris, Tan-y-bryn (a symudodd i Flaenau Ffestiniog) a Mrs.O.J.Roberts, Llysteg, (sy'n symud i'r Cymau) a chyflwynwyd rhoddion iddynt ill dwy.

Y Cyngor Plwyf. Cyfetholwyd y Parch.T.Trefor Parry yn aelod o'r Cyngor i lenwi lle gwag. Rhagfyr 3. Bu Cyfarfod Plwyf i ystyried rhestr Llwybrau Cyhoeddus y plwyf a dynnwyd allan gan y Cyngor. Penderfynwyd rhestru 23 ohonynt.

Bedydd: Tachwedd 3. TEGWEN ANN, merch i Mr.a Mrs.D.Bennett Jenkins, Cerrig Cyrannau. Gwasanaethwyd gan y Parchedig O.J.Roberts, Llysteg.

Llongyfarchiadau i :-

(1) Miss Eiriona Davies, The Hall, Taliesin, am ysgrifennu dwy lith hirfaith i'r Gwyliedydd Newydd ym mis Tachwedd, gan roddi adroddiad llawn o hanes Ysgol Haf yr Ysgol Sul a gynhaliwyd yn y Coleg Diwinyddol ym mis Awst. O blith nifer o bethau gwerth eu dyfynnu nodwn y stori ysgafn yma. Yr oedd rhyw siaradwr yn yr Ysgol Haf yn darlithio ar yr Emyn. "Dywedodd ei bod yn bwysig fod y dôn a'r geiriau yn cyfateb. Rhoddodd enghraifft o rywun wedi dewis tôn anaddas i'r pennill lle mae'r geiriau "And catch the fleeting hour". Y canlyniad oedd fod gormod o dôn a rhy fach o eiriau; felly rhaid oedd gorffen drwy ailganu,

"And catch the flee<br>
And catch the flee<br>
And catch the fleeting hour".

(2) Graham Hughes. (Nawr yng Nghaerdydd, gynt o Hyfrydle, Taliesin, am gynrychioli tim Caerdydd mewn Cystadleuaeth Holi yn Awr y Plant, ac am ateb yn reit dda.

(3) Martyn J.Parry, Y Ficerdy, am fod yn un o bump o Goleg Crist, Aberhonddu a ddewiswyd i gynorthwyo côr Eglwys Gadeiriol Aberhonddu yng Ngwasanaeth Cysegru Esgob Tŷ Ddewi.

---oo---

## CYNFELYN SANT

gan

R.J.Thomas, M.A., Brynderw

Bu mwy nag un Cynfelyn yn hanes Cymru. Yn wir rhestrir yng Ngeirfa'r diweddar Ddr.J.Lloyd-Jones naw o'r un enw, ac yn eu plith y mae Cynfelyn, mabsant ein plwyf ni. Pwy felly oedd y gŵr hwn a goffeir yn Llangynfelyn a pha bryd yr oedd yn byw? Er mai ychydig iawn a wyddys i sicrwydd amdano, eto dywedir yn Achau'r Saint ei fod yn un o ddisgynyddion Ceredig a Chunedda Wledig. Yr oedd felly yn ŵr o linach frenhinol ac yn blodeuo yn y chweched ganrif. Byddaf yn rhyw feddwl weithiau mai rhyw fath o frenin bychan neu bennaeth ydoedd ar deyrnas fechan ym mhen gogleddol Ceredigion ac mai troi at grefydd a wnaeth dan bregethu Padarn neu un o'i fyneich cenhadol. Sut bynnag am hynny, enciliodd Cynfelyn i fyw fel meudwy mewn cell fechan ar fin y gors, ac ymhen amser cymerth y gell honno ei enw ef a'i galw o hynny allan yn Llangynfelyn.

Canolfan awdurdod Cynfelyn a safle ei lys oedd Ynys Gynfelyn. Tybed a safai Llys Gynfelyn rywle tua'r eglwys bresennol neu ger Neuadd-yr-ynys? Yr hyn a brawf yn bendant fod Cynfelyn yn ei ddydd yn fawr ei fri yng ngogledd Ceredigion yw fod ei enw ar gael heddiw mewn amryw enwau lleoedd yn yr ardaloedd cyfagos. Dyna Sarn Gynfelyn sy'n ymestyn i'r môr ger y Wallog, a Chwm Cynfelyn ar y ffordd i Glarach, dau enw cynefin a geidw ei goffa'n fythol-wyrdd. Dengys yr hen fapiau hefyd o ddyddiau'r mapiwr Speed hyd at ryw ganrif yn ôl fod olion hen adeilad eglwysig o'r enw Capel Cynfelyn yn sefyll ger y Wallog neu Ryd Meirionnydd, ond er holi a chwilio methais weld cyfeiriad ato yn unman. Edrychais fap degwm ac enwau caeau plwyf Llanfihangel Genau'r Glyn, gan obeithio taro ar yr union fan a'r lle, ond bu amser a'r tywydd a dyn wrthi'n rhy brysur yn chwalu'r cyfan.

Ceir cyfeiriad diddorol arall at Gynfelyn yn un o gywyddau Dafydd ap Gwilym. Yn ei gywydd i'r Carw a yrrodd yn llatai neu'n negesydd serch at Ddyddgu i Dowyn y mae'n erfyn ar i Dduw gadw'r creadur yn ddiogel ar ei daith. Peryglus o daith ydoedd o Froginin i Dowyn dros fryn a phant a thrwy goedydd a chorsydd, ac yn waeth na'r cwbl nofio tonnau afon Dyfi. Y mae Dafydd yn cloi'r cywydd fel hyn:

Duw i'th gadw, y doeth geidwad,
A braich Cynfelyn rhag brad.

Un arall o'r beirdd sy'n sôn am Gynfelyn yw Lewis Glyn Cothi. Y mae ef yn cyplysu enw Cynfelyn â'r Forwyn Fair. A adawodd Cynfelyn ryw air o

gyngor ar ei ôl? Wel do, os rhoir coel ar y darn hwn a ysgrifennwyd gryn fil o flynyddoedd ar ôl ei farw:

Gwir a ddywod Cynfelyn,
Gorau cannwyll pwyll i ddyn.

Cyngor eithaf buddiol o'i droi i iaith heddiw a deall mai "Doethineb neu synnwyr cyffredin yw'r goleuni neu'r cyfarwyddyd gorau i bob dyn."

## Cyfres ar Gymeriadau'r Ardal

### JOHN JONES Y ROYAL OAK a'i Ddyddiadur am 1910

Y mae cadw dyddiadur yn gymaint o gamp i ddyn ag ydyw cadw cyfrinach i wraig. Fel rheol, fe'i ceidw am wythnos ac yna â'n drech nag ef. Ond dyn manwl gofalus oedd John Jones, a chadwodd ddyddiaduron am flynyddoedd. Ysywaeth, dim ond un ohonynt sydd ar gael bellach, hyd y gwyddys, sef dyddiadur am y flwyddyn 1910.

Ganed John Jones yng Ngwarffynnon ym mhlwyf Llandysul ar Awst 26, 1841. Ymbriododd â Mary Morris (enw morwynol Mary Pierce) yn Eglwys Cynfelyn Sant ar Chwefror 20, 1871. Bu farw ar y 3ydd o Orffennaf, 1912.

Yn ei ddydd yr oedd John Jones yn ddyn pwysig iawn yn yr ardal yma. "Gŵr o gyngor a syberwyd, clerc y Bwrdd Ysgol, Cynghorwr Sir, ac athro yn yr Ysgol Sul am flynyddoedd" - dyna ddisgrifiad y Dr.Tom Richards ohono. Ond nid oherwydd ei flaenoriaeth yn y meysydd hyn, er eu pwysiced, y rhoddwn iddo'r lle anrhydedd y tro hwn ond ar gyfrif ei ddyddiadur a'r golau a deifl ar fywyd yr ardal.

Ar ddechrau ac ar ddiwedd y dyddiadur ceir cryn dipyn o wybodaeth gyffredinol am y flwyddyn 1910. Y Prif Weinidog oedd Asquith a Changhellor y Trysorlys oedd David Lloyd George. Pris stamp ar lythyr (hyd 4 owns) oedd ceiniog. Ond mwy diddorol yw cofnodion personol John Jones, a oedd yn byw y pryd hwn yn Pen-cae Villa, ac a sgrifennai'r cyfan yn Saesneg.

Prynai ef y Cambrian News a'r South Wales Weekly gan Mary Morris gan dalu 4/4 bob hanner blwyddyn. (Ceiniog y copi). Y mae'n cael y Daily News yn syth o Fanceinion bob dydd. Cyst tunnell o lo da bunt a choron iddo; tatws tua thri swllt y cant, (gan "Jenkins, Cerrigcyranau"); hanner cant o foron gan Griffiths, Llwyn-gwinau yn hanner coron. Y mae'n prynu gwerth 10/- o facwn yn Aberystwyth ac yn cael 12 pwys; 4 pâr o esgidiau plant yn Aberystwyth am 19/6. "Jonathan Jones brought me a new trousers and repaired one. Paid him 5/- for all." Yn Ebrill y mae'n prynu mochyn gan John Davies, - 166 pwys yn ôl 10/- y sgôr, h.y. £4.3.0d. "Gave 6d to butcher for cutting it up." Ym Mehefin y mae Richard Davies yn torri'r tyfiant dan wal yr ardd; "Paid him 2/6d and 2 pints. Also gave him a waistcoat (good one) and a stone for scythe sharpening." Mehefin 28 yr oedd yn talu rhent hanner blwyddyn: "Miss Davies' Rent Day at the Royal Oak - paid my rent of £6 and had 1/- back which I spent. The Gwynfryn

Estate Rent at Tre'rddôl." Gorffennaf 2: Talodd ei drethi dyledus, sef 7/3.

Yn Awst y mae'n ordro crochenaid â fenyn yn Ynyscapel ac yn cael addewid am bwys o fenyn bob Sadwrn am gyfnod. Yn yr Hydref y mae'n talu 13/- am 11½ pwys; methwyd â llanw'r crochan am fod teulu Ynyscapel yn symud i'r Tŷ Canol.

Yr oedd John Jones yn ysgrifennydd Clwb Tal-y-bont ac yn gorfod talu allan "sick-pay" yn ôl y galw. Âi i Dal-y-bont ar un nos Sadwrn bob mis i gyfarfod y Clwb. Byddai Richard Davies yn ei hebrwng, gan gario'r bag a chael swllt am wneud hynny 'nôl a blaen.

Ymddengys bod costau popeth wedi myned i fyny erbyn heddiw, ond beth am y cyfeiriad bach hwn? "January 12. Paid Jones, Gelly 13/- for Chapel Pew for 1909". Yr un faint yw cost y côr heddiw !

Weithiau byddai John Jones yn gwerthu ambell beth. Chwefror 4. "Sold a couple of fowls for 3/6, also the old hen for 1/6." Chwefror 17."Sold my hay in a lump as it is to H.R.Jones for £4.5.0d and a pound of the best tea for Mrs.Jones to follow in the bargain." Tachwedd 30. "Let Oak Cottage for £4.10.0d a year to Susanah and Richard Roberts. She gave me a penny earnest on it."

Yr oedd Pwyllgor yr Hers yn y Plwyf. Y Ficer oedd y trysorydd a John Jones yn ysgrifennydd, neu o leiaf ato ef y deuai pobl am yr "Hearse Certificate". Telid 1/6, 2/6 neu 3/6 amdani, yn ôl pellter y siwrnai, gallwn dybio.

Âi John Jones yn gyson i'r capel ar fore Sul, a diddorol sylwi bod y Parchn.Caron Jones a David Lewis, Capel Dewi, yn pregethu yng Ngorffennaf ac Awst. Yr oedd cyfrifon Rehoboth am y flwyddyn flaenorol yn barod i'w harchwilio erbyn Chwefror 17.yn nhŷ Mrs.(Capt.) Richards, ("Min-y-môr" heddiw) gan Mr.James Jones yr Ysgol, a Mr.John Erasmus Jones y gof. Dydd Gwener y Groglith: "Out to chapel for tea and walked a few yards. Nice day. Some sort of a meeting at night, but did not attend." Yr oedd John Jones erbyn hyn yn tynnu am ei 69 oed a'i iechyd heb fod yn rhy dda; ni fedrai gerdded rhyw lawer yn yr orymdaith a fu'r diwrnod hwnnw.
Dydd Mercher, Mai 25, cofnodir Cymanfa Pen-y-garn. (Sefydlwyd hon yn 1872). Mehefin 15: "The trip of Churchmen to Oswestry." Mehefin 17: "The Taliesin Trip in 2 large motors to Towyn. Very fine day." Ni ddywedir i ba le yr aeth capel Tre'rddôl. Medi 27: Y mae'n debyg fod tysteb ar droed i'r gweinidog enwog Hugh Roberts y Graig. Cofnodir "R.Davies and Edward Lloyd collecting for Roberts y Graig. Gave them 5/-". Medi 25: "Prayer Meeting at Taliesin in the afternoon instead of Sunday School. Why, I don't know." Hydref 3: "The Annual Thanksgiving Meetings of the Llan commencing this evening at the Mission Room." Hydref 12: Cyfarfod Diolchgarwch Taliesin. "Attended 10 a.m. and 2 p.m. Quiet meetings. Heard that there was a good and enthusiastic meeting in the evening." Rhagfyr 28: Eisteddfod yn Nhre'rddôl. Rhagfyr 31: Cyfarfod Cystadleuol yn Rehoboth.

Bu nifer o etholiadau yn ystod y flwyddyn 1910. Mawrth 8: Bu Etholiad y Cyngor Sir. Dr.James, Lodge Park oedd yn fuddugol gyda mwyafrif o 102.

Dr.James: 152 Dr.Williams: 50

Mawrth 16: Etholwyd Cyngor Plwyf heb frwydr. Y naw a ddewiswyd oedd John Jones, Pen-cae Villa, (dewiswyd ef yn Llywydd am y flwyddyn); David Owen Edwards, (Is-lywydd); J.R.Jones, (Saer), 50 Taliesin; H.Whitlock Jones, Tymawr Mochno; Evan Morgan, Coedmor; William Pugh, Manchester House; J.G.Stephens, Erglodd; Thomas J.Thomas, Neuadd; a Dd.O.Williams, Cletwr Hall.

Ebrill 6: Etholwyd Cynghorwr Dosbarth:-

William Mason 80. J.G.Stephens 59. Mwyafrif o 21.

Ebrill 27: Cyfarfod Unedig o Gynghorau Plwyf Ysgubor-y-coed a Llangynfelyn i ddewis Rheolwr Ysgol, (School Manager). Etholwyd William Evans, Melindwr, yn unfrydol.

Ar Ebrill 29 fe'n hatgofir o weithred hanesyddol bwysig iawn. "The Royal Assent given to Ll.George's Budget thrown out by the Lords last autumn." Ac ar gyfer Mai 6 cofnodir marwolaeth y Brenin Edward VII am 11.30 p.m. yn 68 oed. Mai 20: "Burial of King Edward VII at St.George's Chapel, Windsor. A great ceremony. A few from here went to town - being a general holiday."

Ar wahân i fanion economaidd, crefyddol a pholiticaidd ceir llawer cyfeiriad bach diddorol at bethau a achosodd gryn dipyn o siarad ar y pryd.

Mai 1: Clywodd John Jones y gog am y tro cyntaf, ond yr oedd eraill wedi ei chlywed wythnos yn flaenorol. Yr un dyddiad: "Auntie gave half a sovereign in envelope in chapel." (Hyn yn ein hatgofio nad arian papur a ddefnyddid ond hanner sofren felen).
Mai 2: Damwain yn digwydd i drap Jim Felix ar Rhiw Siôn Saer - ond neb yn cael rhyw lawer o ddolur.
Mai 18: "Richard (Dicci) Hughes returned after 3 years or more from Colombia, South America." Medi 26 mae yn dychwelyd yno drachefn. (Yr oedd yn frawd i Mrs.Jones, Sunnydale, Pen-cae, ac yn byw yn Oak Villa yr adeg honno. Daeth yn gapten yn y gweithfeydd aur. Cafodd ei ladd mewn damwain ym Mrasil).
Gorffennaf 24: Cyffro mawr - y Territorials yn dechrau dod i Bow Street, yn dod yn eu miloedd ar y Sul mewn moduron. Y mae'n debyg eu bod yn gwersyllu ar feysydd eang gwastad Gogerddan. "The whole country flocked there to see them and there was a great deal of rowdyism."
Awst 1: "Territorials about and are camping tonight at Cae'rddôl (Tre'rddôl). It was reported that Lloyd George passed through here."
Awst 2: "The Terrs. going to Derwenlas in small lots for sham fight."
Awst 3: "The terrs. passing in hundreds, if not in thousands all day. The Royal Artillery with guns, boats for bridges, etc."
Awst 4. "The Artillery baggage and about one third of the men passed

back to camp at Bow Street going in driblets in the evening. Majority of men returned by train from Glandovey."

Medi 7: Sioe Tal-y-bont. Hydref 17: Ffair Tal-y-bont.

Hydref 22: Dyn newydd gyda Van bara Powell !

Hydref 23: "The hounds passed here - meet at Tre'rddôl."

Rhagfyr 22: "Had 7/6 worth of copper coins at the bank." (Codai'r pres newydd sbon hyn bob blwyddyn i'w dosbarthu fel calennig.).

Rhagfyr 25: Dydd Nadolig. "Roast Beef Dinner." (Byddai'r cig yn cael ei goginio ar spit fawr a droai o flaen y tân.).

Rhagfyr 27: "A thief took H.R.Jones's cash-box at Bon Marche. The same man visited Troed-y-rhiw, Tan-rallt and was very cheeky. Saw him twice, by Troed-y-rhiw and by Temperance House - he wore a light brown jacket."

Ionawr 3, 1911. "Petty Sessions, Tal-y-bont. The Bon Marche thief tried and had 6 months."

Ionawr 11: "Sent to London with 20 stamps for a new Diary."

Truenu na ddeuai hwn i law eto. Ond diolchwn i John Jones am ei ddyfalbarhad gyda'i ddyddiadur ac am roddi i ni, yn ddiarwybod, gip ar gymaint o agweddau ar fywyd ei gyfnod.

H.J.E.

---oo---

## TALIESIN YN Y DYDDIAU GYNT

Nodiadau a godwyd o ddarlith a draddodwyd gan yddiweddar Mrs.Evan Thomas, Brynarian.

(a) Trip yr Ysgol Sul.

Diwrnod mawr yn ein hanes oedd y diwrnod hwn. Cael mynd i Ynys-las i gwrdd y trên yn wagen y Neuadd a'r rhan amlaf yn mynd â'r bwyd efo ni, ac yn gofyn benthyg festri Capel Methodis'y lle i baratoi y bwyd. Adeg dathlu canmlwyddiant yr Ysgol Sul yng Nghymru yn y flwyddyn 1885 trip i'r Borth a gafwyd. Ac yr oedd cymaint yn mynd oddi yma fel y bu raid cael tair wagen i'w cario, - wagen Henhafod, wagen y Neuadd a wagen Tan-llan, a chan mai wagen Henhafod oedd wedi ei thrimio smarta' y diwrnod hwnnw, y hi oedd yn cael mynd gyntaf a'r lleill yn dilyn. Sôn am y Luxury Cars a'r charabancs 'rŵan, fuaswn i ddim yn newid am un arian ! Wagen y Neuadd yn mynd â ni wedyn i Ben-y-garn i'r Gymanfa; 'roedd gwell hwyl hyd yn oed ar y canu wedi mynd i lawr yn y wagen.

(b) Diwrnod mawr yr Ysgol.

Diwrnod mawr i bawb ohonom oedd diwrnod ymweliad yr Inspector; pawb yn troi allan yn eu dillad gorau a llwch lli wedi ei gael gan John Davies y Saer i'w roi ar y llawr rhag cadw sŵn wrth symud.

Bu Mrs.Mytton yn feistres wnïo am flynyddoedd. Nid oedd yn deall dim Saesneg a byddai ei chwaer, Mrs.Walker, yn dod efo hi ddiwrnod yr Inspector er mwyn siarad Saesneg efo fe. Bu raid inni dalu am ein hysgol un adeg bob wythnos a gorfod mynd â'n copy-books a'n pencils ein hunain.

(c) Gweithfeydd.

Yr oedd pawb mewn rhyw fath o waith; diffyg cyflog, nid diffyg gwaith oedd y broblem. Yr oedd mynd da ar y gweithfeydd plwm yn yr ardal - gwaith Llain Hir a'r Romans - gyda Captain Clint yn edrych ar ei ôl. Gwaith ym Mrynarian a llawer yn gweithio yn Esgair-hir a rhai cyn belled â Chwmsymlog. Eraill yn mynd i'r Deheudir i'r gweithfeydd glo.

(ch) Gwneud Hetiau.

Yr oedd llawer yn ennill eu bywoliaeth trwy wneuthur hetiau. Yr oedd eisiau llawer o hetiau cryfion ar y miners a lle i roi'r gannwyll wêr ynddynt ar y bl$_{a}$en. Os byddai eisiau het briodas neu het dda ar gyfer y Sul, 'roedd yn rhaid cael blewyn ffein, megis blew cwningen. Ond os het bob dydd, byddai blew ysgwarnog ac ambell dusw o wlân yn gwneud y tro.

Byddai mamgu yn cychwyn oddi yma i Gaernarfon â llwyth o hetiau ar gefn y mulsyn, - strap yn groes i'w gefn a bocs bob ochr yn llawn hetiau, a hi ei hun yn cerdded gan fyned trwy Fachynlleth a Chorris. Yr oedd arni ofn wrth fynd heibio i'r Ganllwyd a cheisiai fynd heibio yno cyn iddi ddechrau tywyllu, a dyna oedd yn arfer ei ddweud, -

"Er hylled yw'r creigiau o gwmpas Dolgellau,
Saith hyllach nag unlle yw'r Ganllwyd."

Yr oedd teuluoedd parchus yn byw yn Llety'r-frân, - yn benigamp am wneud hetiau.

(d) Tafarn Maria.

Yr oedd un dafarn nodedig yma yn yr hen amser, Tafarn Maria fel y'i gelwid, ar gornel capel Rehoboth. Yr oedd yn gyrchfan llawer o yfwyr ac yn eu mysg un o'i thylwyth hi ei hunan, neb llai na Twm y Deryn. Dywedir iddo gael yr enw pan ddywedodd rhywun wrtho am fynd adref neu ni fyddai'n gallu codi i fynd i'r gwaith mewn pryd drannoeth. A'i ateb oedd, "Mi fydda i yno fel 'deryn"; a daeth yr enw i lawr o genhedlaeth i genhedlaeth.

(dd) Cadw Moch a Chodi Tatws.

Yr oedd pob tŷ bychan heb eithriad yn cadw mochyn, a phawb yn hela dail i roi tanynt, neu fynd i'r Neuadd am faich o wellt. Yna mynd â'r dom i un o'r ffermydd i hau tatws yno, ond talu swllt y llwyth i'r ffermwr am ei gario. Felly byddai llawnder o gig moch a thatws gan bob teulu. Arferid hefyd gynaeafu digon o fawn i'r tân.

(e) Gwlana.

Pan fyddai'r teulu yn cynyddu ac eisiau gwely newydd, byddai'r merched yn mynd i'r mynydd i wlana, dwy neu dair efo'i gilydd. Hel gwlân drwy'r dydd a chael cysgu'r nos yn barracks Esgair-hir yng ngwely y rhai oedd yn gweithio shifft y nos. Âi eraill â'r gwlân i ffatri Tal-y-bont i wneud defnydd siwt i'r gŵr, neu i wneud edafedd at wau 'sanau i'r teulu.

---oo---

## Y FFAIR GYFLOGI

gan
Mr.Dewi Morgan, Llandre

Cynhelid Ffair Gyflogi Aberystwyth yng Nghalan Gaeaf a mawr y bri a fyddai arni. Ni wyddom ni pa bryd y sefydlwyd hi, ond yn un o'i lythyrau, a sgrifennodd ryw ddau can mlynedd yn ôl y mae Lewis Morris o Fôn yn sôn fod ei wraig wedi myned i Ffair Gyflogi Aberystwyth i gyflogi gweision a morynion. Yr adeg honno yr oedd ef yn byw ym Mhen-y-bryn, Goginan, ac yn gofalu am amryw weithiau mwyn yn y cylch.

Erbyn hyn y mae'r ffair ym mysg y pethau a fu. Newidiodd pethau'n rhyfedd ar y tir. Yn yr hen amser fe fyddai'r gwas a'r forwyn yn setl•'r gyflog gyda'r ffermwr, ond erbyn hyn fe wneir hynny gan y Llywodraeth. Am ben hynny, fe fydd y Llywodraeth yn trefnu'r oriau a'r amodau gweithio. Bydd y gwas a'r forwyn yn talu hyn a hyn bob wythnos ar gyfer eu pensiwn a gwasanaeth meddygol. Ymhellach y mae'r cyflogau wedi mynd i fyny yn aruthrol. Beth petai'r hen bobl gynt yn codi a chlywed bod gwas ffarm yn ennill agos i bunt y dydd !

Gallaf fi'n awr gofio tipyn am y ffeiriau cyflogi tua deng mlynedd a thrigain yn ôl pan gaffai'r "gwas pennaf" o £14 i £17 y flwyddyn a'i fwyd, wrth gwrs, a'r forwyn bennaf o £12 i £15. Rhyw ddeugain mlynedd yn ôl yr oeddwn yn siarad â hen ŵr a hwnnw'n sôn mai ef oedd y gwas cyntaf ym mhlwy Cyfoeth y Brenin i gael £10 y flwyddyn. Yn y ffair yr oedd pobl yn estyn bys ato a dweud "Mae e'n cael £10 y flwyddyn". Credai yntau ei bod yn gyflog ryfeddol, a hyderai y gallai ei hennill drwy godi buwch o'r ffos neu rywbeth tebyg.

Gadewch inni fwrw golwg ar y ffair fel yr oedd tua'r flwyddyn 1887. Tybiwch eich bod yn stesion Llandref. Tua hanner awr wedi naw y bydd y trên yn cyrraedd ond ymhell cyn hynny bydd y bechgyn a'r merched yno. Fe welwch ambell lanc yn torri tipyn o sgwâr, ac yn mynd yn syth i'r dafarn am ddiferyn. Erbyn amser y trên bydd rhyw saith i wyth ugain o bobl ifainc ar y platfform. Dyna'r sôn rhyngddynt, hwn a hwn, a hon a hon, wedi cyflogi

gartref, a'r gyflog beth yn uwch efalli. Sôn am eraill yn ymadael, nid arhosant yn yr un lle am gyflog yn y byd: y gwaith yn galed, y bwyd yn gyffredin, etc.

Ond wedi cyrraedd y dref fe gewch olwg ryfedd. Yn y Stryd Fawr a Stryd-y-Bont yr â'r cyflogi ymlaen. Ac wrth gyflogi fe fyddai'r gwas neu'r forwyn yn derbyn yr ernes, rhyw ddeuswllt neu hanner coron fel rheol, - dyna fyddai'n selio'r fargen. Petai'r bachgen neu'r ferch yn newid ei feddwl a pheidio â mynd i'r lle fe roddid yr ernes yn ôl, a dyna'r cwbl drosodd, ond nid yn aml y digwyddai hynny.

Wel, y mae'r Stryd Fawr yn orlawn o bobl: stondinau o bob math ar bob ochr i'r stryd. Gwerthid gwlenyn, capiau, ac yn arbennig roc cartref. Yr oedd hwnnw'n beth blasus ryfeddol. At hynny, fe gewch fentro'ch siawns am geiniog, drwy roi tro i ryw bin hir a'r dyn yn gweiddi, "Ceiniog y tro, pren bob tro", a llawer o fynd arno, wrth gwrs.

Drwy'r cyfan i gyd y mae'r ffarmwr a'r gweision yn trafod eu busnes. Clywais y byddai'r bechgyn a'r merched a fyddai heb gyflogi yn sefyll ar un ochr y stryd. Dyna lle byddai ambell ffarmwr yn edrych am fachgen cryf yn gafael ym môn ei fraich, a holi tipyn o'i hanes. Rywsut neu'i gilydd fe fyddai bechgyn a merched tu hwnt i'r dref yn tueddu i ddyfod i'r cyffiniau hyn, a hynny mae'n debyg am fod y gwaith yn ysgafnach.

Fel y mae'r dydd yn mynd ymlaen, daw mwy a mwy o bobl i'r Stryd Fawr, nid i gyflogi ond i weld y ffair. Byddai miri mawr ymysg yr ieuenctid: saethu dŵr i wynebau ei gilydd; a dyna beth od, dŵr oer ar eich wyneb yn y gaeaf. Byddai'n nosi'n gynnar a llawer yn troi tuag adref. Ambell hogyn wedi yfed ar y mwyaf ac yn cadw cryn dwrw, ond ychydig iawn fyddai'n cael eu rhedeg i mewn.

Yn y cartrefi wedi nos dyna fyddai'r siarad, - y newid ym mhob ffarm bron. Fe gaem wybod faint oedd cyflog pob un bron. Sonnid am ambell un ei fod heb le, ond fe gâi siawns arall ar yr ail a'r trydydd Llun cyflogi.

Fel rheol fe gâi'r bechgyn a'r merched eu gwyliau am ryw wythnos. Bron yn ddieithriad fe fyddai'r gweision ceffylau yn prynu whip a phâr o legins newydd a chaech weld yr hogyn yn mynd i'w le newydd neu "at ei gyflog" fel y sonnid. Byddai ganddo lodrau rib glân amdano, gwasgod o ffwstian a llewys iddi, (gwasgod llewys), dilledyn cyfleus iawn: ond ni wisgir mono ers llawer dydd.

Ar adeg Calan Gaeaf fe fyddai bechgyn y pentrefydd yn gwneud lantarn feipen, a'i dodi ar bost llidiart. Byddai gan ambell un law dda at waith felly.

Dyna olwg frysiog iawn ar y Ffair Gyflogi. Fe barhaodd hyd adeg y rhyfel cyntaf, a diflannodd yn raddol ond yn sicr. Yn yr hen amser nid oedd dim byd ar gerdded yn Smithfield, Aberystwyth, ond daeth Studts a'i gelfi yno ryw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Gyda llaw, yno y dangoswyd y lluniau byw cyntaf yn y sir, a hynny y Llun cyflogi cyntaf yn y flwyddyn

1901. Beth feddyliech oedd y pictiwr mawr? Llun claddedigaeth y Frenhines Victoria, Chwefror 1901.

Gobeithiwn fwrw golwg eto ar waith ffarm tua diwedd y ganrif o'r blaen.

---oo---

## TRE'RDDÔL A'R PARCH.DANIEL ROWLANDS

"Cyffelyb i agwedd Gwynedd, a rhannau uchaf sir Aberteifi oedd agwedd foesol Tre'rddôl. Nid oedd aradr ymneilltuaeth wedi rhwygo dim ar y tir diffaeth hwn. Gorweddai y preswylwyr yn ddiofal ddigon mewn anystyriaeth dybryd am bethau byd tragwyddol. Ac fel y gellid disgwyl, yr oedd yr hen ofer-gampau yn y broydd hyn yn eu llawn rhwysg. Mewn ysgrif o fy mlaen darlunir ardal Tre'rddôl yn debyg i hyn: 'Prif arferion y ganrif ddiwethaf oedd nosweithiau llawen, y rhai a gynhelid ar gylch agos bob wythnos, a gwylmabsantau. I'r diweddaf ymgynullai yr holl blwyf ymron; cynhelid ynddynt redegfeydd ceffylau; ymrysonai gwŷr ieuainc, ie, a hen wragedd, redeg â'i gilydd; a mawr yr hyfrydwch a fwynheid yn yr arferiad farbaraidd o ymladd ceiliogod. I'r un graddau ag y ffynnai yr arferion isel hyn yn y fro, i'r un graddau y ceid gwrthwynebiad y trigolion i bob ymosodiad o eiddo'r efengyl ar eu difyrrwch. Gwnaeth Mr.Rowlands gais ar gael pregethu yn Nhal-y-bont, pentref o fewn dwy filltir i Dre'rddôl; ond gan faint oedd ffyrnigrwydd y preswylwyr, bu raid iddo gilio ymaith, a da oedd cael dianc i ffordd heb ei anafu. Ymlidiwyd ef o Dal-y-bont â cherrig. Yr oedd wedi bwriadu pregethu yn Nhre'rddôl yr un Saboth, a chlybu y bobl hynny; a phenderfynasant ei labyddio â cherrig. Hysbyswyd eu bwriad gwaedlyd i Mr.Rowlands, a cheisiwyd ganddo yn daer i beidio myned trwy y pentref, ond dychwelyd ar hyd ryw ffordd arall. Ond â hyn ni chydsyniodd, gan fwriadu, ond odid, arfer cyfrwysder, a dianc o ddwylo yr erlidwyr trwy ystryw ddiniwed. Aeth trwy'r pentref ar garlam gwyllt, ac wrth fyned heibio i'r dorf a'i disgwyliai, efe a waeddai yn groch arnynt, "Beth ydych chwi yn ei wneud yn y fan hyn, blant y diawl?" Dyrysodd hyn y cynllwynwyr; - tybiasant mai nid iaith pregethwr oedd hon. "Nid hwn yw efe", ebe un, "Gŵr bonheddig yw hwn", ebe arall, a chafodd Rowlands trwy'r ddichell hon fyned heibio yn iach a diogel". Darllenwn fod y cyffelyb ddichell wedi cael ei defnyddio ganddo ef ar achlysuron eraill, a chan bregethwyr eraill, pan fernid y gellid trwy hynny ochel ymosodiad yr erlidwyr."

(Codwyd o ail gyfrol "Methodistiaeth Cymru" gan y Parch.John Hughes, Lerpwl. (1854) Td.53).

Englyn: Y BEIBL

Dwyfol arfaeth a draetha - hanes hen
Ei sail, dod Meseia,
A'i lew daith, y Bugail Da,
O gôl Fair i Galfaria.

W.E.Pugh.

---oo---

## RHESTR O YSGOLFEISTRI LLANGYNFELYN ODDI AR 1871

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Richard Morris. | Rhagfyr 8, 1871 - Mawrth 31, 1876. | |
| 2. | Samuel Prosser. | Ebrill 18, 1876 - Medi 20, 1889. | |
| 3. | Richard Rhydderch. | Medi 30, 1889 - Hydref 22, 1891. | |
| 4. | James Jones. | Hydref 26, 1891 - Chwefror 4, 1922. | |
| 5. | Evan Melancthon Evans. | Chwefror 6, 1922 - Tachwedd 30, 1923. | |
| | Robert William Jones. | Rhagfyr 1, 1923 - Rhagfyr 24, 1923. | (D.d.) |
| | Rosamund Hughes. | Ionawr 11, 1924 - Chwefror 8, 1924. | (D.d.) |
| 6. | Dennis Hughes. | Chwefror 11, 1924 - Tachwedd 17, 1941. | |
| | Anne Richards. | Ionawr 5, 1942 - Rhagfyr 23, 1943. | (D.d.) |
| | W.J.Griffiths. | Ionawr 10, 1944 - Ebrill 6, 1944. | (D.d.) |
| | G.L.Griffiths. | Ebrill 17, 1944 - Ionawr 11, 1946. | (D.d.) |
| 7. | Hugh John Evans. | Ionawr 14, 1946 - | |

(D.d. - Ysgolfeistr dros dro.).

---oo---

## GOLYGFA NAS ANGHOFIR

"A sôn am Aberdyfi: yr oeddwn yno beth amser yn ôl mewn cyngerdd a gynhelid mewn neuadd ar lan y môr. Edrychais allan yn hwyr y dydd, yn y distawrwydd mawr, dros yr aber a'r traeth draw i Gors Fochno a'r mynyddoedd yr ochr uchaf i Dre Taliesin a Thre'rddôl. Ac yna, fel nas gwelais na chynt na chwedyn, gwelais 'y lloer yn ariannu'r lli'. Dyna un o'r eiliadau prinion y mae'n hyfrydwch eu trysori yn y cof."

(Codwyd o "Crwydro Ceredigion" gan T.I.Ellis, td. 23.).